# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

**RHAN 2**

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

*Materion ariannol*

**15 Cyllido**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau i'r Comisiwn o symiau a benderfynir ganddynt.

(2) Gwneir grant yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a bennir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys amodau ynghylch ad-dalu).

**16 Swyddog cyfrifyddu**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddynodi person i weithredu'n swyddog cyfrifyddu i'r Comisiwn.

(2) Mae gan y swyddog cyfrifyddu, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid y Comisiwn, y cyfrifoldebau a bennir mewn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.

(3) Ymhlith y cyfrifoldebau y caniateir eu pennu mae—

(a) cyfrifoldebau mewn perthynas â llofnodi cyfrifon;

(b) cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid y Comisiwn;

(c) cyfrifoldebau am ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Comisiwn ddefnyddio ei adnoddau;

(d) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Weinidogion Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol;

(e) cyfrifoldebau sy'n ddyledus i Dŷ'r Cyffredin neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Tŷ hwnnw.

## 17 Pwyllgor archwilio

(1) Rhaid i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor ("pwyllgor archwilio") i—

(a) adolygu materion ariannol y Comisiwn a chraffu arnynt,

(b) adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Comisiwn,

(c) adolygu ac asesu darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd defnydd y Comisiwn o'i adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau, a

(d) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Comisiwn mewn perthynas ag adolygiadau a gynhelir o dan baragraffau (a), (b) neu (c).

(2) Rhaid i'r pwyllgor archwilio anfon copïau o'i adroddiadau a'i argymhellion at Weinidogion Cymru.

(3) Y pwyllgor archwilio sydd i benderfynu sut i arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.

## 18 Pwyllgor archwilio: aelodaeth

(1) Mae aelodau'r pwyllgor archwilio i fod fel a ganlyn—

(a) o leiaf ddau aelod o'r Comisiwn, a

(b) o leiaf un aelod lleyg.

(2) Ni chaiff aelod cadeirio'r Comisiwn fod yn aelod o'r pwyllgor archwilio.

(3) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau a threuliau a benderfynir ganddo i aelod lleyg.

(4) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i aelod lleyg.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "aelod lleyg" yw unrhyw berson ar wahân i—

(a) un o aelodau neu gyflogeion y Comisiwn, neu

(b) arbenigwr sydd wedi ei benodi o dan adran 10(1) neu gomisiynydd cynorthwyol sydd wedi ei benodi o dan adran 11(1).

## 19 Cyfrifon ac archwilio allanol

(1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiwn—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon.

(2) Rhaid i bob datganiad o gyfrifon gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o ran—

(a) yr wybodaeth i'w chynnwys ynddo,

(b) y modd y mae'r wybodaeth i gael ei chyflwyno,

(c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w lunio yn unol â hwy.

(3) Heb fod yn hwyrach nag 31 Awst ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei ddatganiad o gyfrifon i—

(a) Gweinidogion Cymru, a
(b) Archwilydd Cyffredinol Cymru.

(4) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—
(a) archwilio ac ardystio'r datganiad o gyfrifon ac adrodd arno, a
(b) heb fod yn hwyrach na 4 mis ar ôl i'r datganiad gael ei gyflwyno, gosod copi o'r datganiad ardystiedig a'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "blwyddyn ariannol" yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

## 20 Adroddiadau blynyddol

(1) Heb fod yn hwyrach na 30 Tachwedd ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar y broses o gyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad a gosod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Yn yr adran hon, mae i "blwyddyn ariannol" yr un ystyr ag yn adran 19.